

cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



Cludiant Cymunedol Dolen Teifi

Prosiect Ein Cyfle i Deithio

Yn ystod haf 2018, wedi iddo gyflwyno cwrs hyfforddi MiDAS i grŵp o yrwyr gwirfoddol, cafodd rhywun air â'r hyfforddwr, sef rheolwr datblygu Trafnidiaeth Gymunedol Dolen Teifi, Rod Bowen, ynghylch diffyg cludiant grŵp cymunedol fforddiadwy a hygyrch yn Rhydaman.

Dywedwyd wrth Rod nad diffyg gwasanaeth cludiant cymunedol yn unig oedd y prif rwystr oedd yn wynebu pobl yn ardal Rhydaman wrth geisio mynychu cyfleoedd cymdeithasol a chyfleoedd eraill, ond bod diffyg trafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch yn y lle cyntaf, a bod hynny'n golygu bod mwy fyth o angen am gludiant cymunedol.

O'r fan honno, dechreuodd Dolen Teifi ymgynghori ag unigolion allweddol, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill yn Rhydaman, yn ogystal â thîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru y CTA. Roeddem yn gallu cynorthwyo Dolen Teifi i bennu hyd a lled prosiect a fyddai'n llenwi bwch yn y ddarpariaeth cludiant cymunedol yn Rhydaman, yn ogystal â'u helpu i ddatblygu ac ysgrifennu cais am gyllid gan gynnwys grant Pawb a'i Le y Loteri Fawr.

Ym mis Tachwedd 2018, dyfarnwyd £98,000 i brosiect Ein Cyfle i Deithio dros gyfnod o 18 mis ac o'r herwydd, roedd modd prynu bws mini cwbl hygyrch ac roedd Dolen Teifi yn gallu cyflogi swyddog datblygu rhan amser i oruchwylio a datblygu'r prosiect.

Ers hynny, mae'r prosiect wedi gwneud gwahaniaeth hynod gadarnhaol i grwpiau a sefydliadau cymunedol ledled ardal Rhydaman. Mae grwpiau ar gyfer pobl ifanc fel y Sgowtiaid a'r Brownies wedi elwa o'r prosiect, yn ogystal â grwpiau sydd â'r nod o gefnogi pobl hŷn fel cartrefi preswyl, tai gwarchod a chartrefi gofal, a grwpiau lleol y W.I., Y Gymdeithas Strôc a Chlwb y Deillion Byddar i enwi ambell un.

Mae'r prosiect wedi gwneud teithio grŵp yn fforddiadwy trwy gael bws mini pwrpasol i'r gymuned yn Rhydaman, gan helpu pobl i deithio gyda'i gilydd mewn ffordd nad oedd yn bosibl o'r blaen. Mae hefyd wedi golygu nad yw Dolen Teifi wedi gorfod dod â bysiau mini o ardaloedd eraill lle maent yn darparu prosiectau, fel Caerfyrddin a Llanelli, er enghraifft - rhywbeth nad oedd yn gweithio yn y gorffennol oherwydd y pellteroedd sylweddol dan sylw.

Mae cael bws mini fforddiadwy a hygyrch o fewn cyrraedd hawdd yn golygu nad yw grwpiau'n cael eu rhwystro gan ddiffyg cludiant ac mae hyn wedi galluogi llawer mwy o deithiau i ddigwydd, gan alluogi grwpiau cymunedol i ymweld â digwyddiadau ac atyniadau ac i gyrraedd y bobl a'r lleoedd sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd ac wedi gwneud gwir wahaniaeth i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

Mae gan Gludiant Cymunedol Dolen Teifi hanes rhagorol o ddatblygu rhwydwaith cryf o yrwyr gwirfoddol sy'n parhau â'u cyswllt â'r grwpiau a'r cymunedau y maen nhw'n yn eu cefnogi. Mae prosiect Ein Cyfle i Deithio wedi defnyddio'r dull hwn unwaith eto trwy weithio gydag unigolion, mudiadau, sefydliadau ac arweinwyr cymunedol lleol i ganfod, hyfforddi ac annog gwirfoddolwyr i gynnig eu hunain i yrru. Mae Dolen Teifi hefyd wedi darparu hyfforddiant MiDAS i bob gyrrwr newydd sy'n rhan o'r prosiect.

“Mae prosiect Ein Cyfle i Deithio yn bwysig i Dolen Teifi,” meddai Rod, “oherwydd ei fod yn cyd-fynd â chenhadaeth y sefydliad trwy sicrhau bod gan grwpiau cymunedol lleol a'r unigolion sy'n rhan o'r grwpiau hynny fynediad cyfartal i drafnidiaeth ac y gallant gyrraedd digwyddiadau, atyniadau a chyfleoedd mewn modd fforddiadwy a hygyrch”.

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.

